## ATODLEN 1

### ADOLYGIADAU CYCHWYNNOL O DREFNIADAU ETHOLIADOL ETC.

*Adroddiad terfynol*

8 (1) Ar ôl i'r cyfnod ar gyfer sylwadau o dan baragraff 7(3) ddod i ben, rhaid i'r Comisiwn ystyried ei gynigion gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd ganddo yn ystod y cyfnod.

(2) Yna rhaid i'r Comisiwn wneud adroddiad terfynol sy'n cynnwys—

(a) ei argymhellion o ran y trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu ac unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau canlyniadol perthnasol,

(b) manylion yr adolygiad a gynhaliwyd ganddo, ac

(c) manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion yn yr adroddiad interim a wnaed yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd, ac esboniad paham y gwnaed y newidiadau hynny.

(3) Rhaid i'r Comisiwn—

(a) cyflwyno'r adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru,

(b) anfon copi o'r adroddiad at yr ymgyngoreion gorfodol eraill ac at unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol,

(c) cyhoeddi'r adroddiad, a

(d) rhoi gwybod i unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth neu a wnaeth sylwadau mewn perthynas â'r adroddiad interim a gyhoeddwyd o dan baragraff 7, ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol, sut i gael gafael ar yr adroddiad.

(4) Pan anfonir adroddiad terfynol at brif gyngor o dan is-baragraff (3)(b), rhaid iddo—

(a) cyhoeddi'r adroddiad terfynol,

(b) sicrhau bod yr adroddiad ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) yn ei swyddfeydd am chwe wythnos o leiaf ar ôl y dyddiad y cafodd y cyngor yr adroddiad, ac

(c) cymryd y camau y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud yr etholwyr llywodraeth leol yn ei ardal yn ymwybodol o'r adroddiad, a sut i gael gafael arno.

(5) Nid yw adran 29(8) o Ddeddf 2013 (dim argymhellion i gael eu gwneud na'u cyhoeddi yn y naw mis cyn etholiad cyffredin) yn gymwys yn achos argymhelliad a gynhwysir mewn adroddiad terfynol o dan is-baragraff (2).